

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth o ran Rhywedd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

	Carmarthenshire		Wales		England & Wales	
	2021		2021		2021	
Pob Preswilydd Arferol	155,486		2,559,414		48,566,373	
Cyfeiriadedd Rhywiol						
Syth neu Heterorywiol	139,511	89.7%	2,288,630	89.4%	43,403,110	89.4%
Hoyw neu Lesbiaidd	1,845	1.2%	38,101	1.5%	747,805	1.5%
Deurywiol	1,500	1.0%	31,814	1.2%	623,504	1.3%
Panrywiol	202	0.1%	4,534	0.2%	112,386	0.2%
Arywiol	79	0.1%	1,558	0.1%	28,172	0.1%
Cwiar	23	0.0%	583	0.0%	14,511	0.0%
Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	19	0.0%	273	0.0%	10,236	0.0%
Heb ateb	12,307	7.9%	193,921	7.6%	3,626,649	7.5%
Hunaniaeth o ran Rhywedd						
Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	144,924	93.2%	2,387,304	93.3%	45,389,635	93.5%
Hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni ond ni roddwyd hunaniaeth benodol	210	0.1%	4,015	0.2%	117,775	0.2%
Menyw draws	93	0.1%	1,888	0.1%	47,572	0.1%
Dyn traws	90	0.1%	1,922	0.1%	48,435	0.1%
Pob hunaniaeth arall o ran rhywedd	97	0.1%	2,445	0.1%	48,330	0.1%
Heb ateb	10,072	6.5%	161,842	6.3%	2,914,625	6.0%

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth o ran Rhywedd

Dadansoddiad:

- *Am y tro cyntaf, roedd y cyfrifiad yn gofyn i bobl am eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd. Bydd y ffigurau newydd hyn yn hollbwysig o ran helpu i lunio gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.*
- *Nododd 89.7% (139,511) o boblogaeth Sir Gaerfyrddin eu bod yn syth neu'n heterorywiol. Mae hyn yn uwch nag yng Nghymru, ac yng Nghymru a Lloegr, lle mae'r ddau yn 89.4%. Mae gan Sir Gaerfyrddin ychydig dros 3,600 (2.4%) o bobl a nododd fod ganddynt gyfeiriadedd LHD+ ("Hoyw neu Lesbiaidd," "Deurywiol" neu "Cyfeiriadedd rhywiol arall"). Mae hyn yn cynyddu i 76,800 (3%) yng Nghymru ac i 1.5 miliwn o bobl (3.2%) yng Nghymru a Lloegr.*
- *Nododd ychydig o dan 500 (0.3%) o bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin fod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni, o gymharu â 262,000 (0.5%) o bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.*

Diffiniad:

Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae hyn yn dosbarthu pobl yn ôl yr ymatebion i'r cwestiwn am hunaniaeth o ran rhywedd. Roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol ac fe'i gofynnwyd i bobl 16 oed a drosodd yn unig.

Cyfeiriadedd rhywiol

Mae hyn yn dosbarthu pobl yn ôl yr ymatebion i'r cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol. Roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol ac fe'i gofynnwyd i bobl 16 oed a drosodd yn unig.